# Crynodeb o'n Cynigion

## Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o fesurau arfaethedig y Codau yn yr ymgynghoriad hwn.

| Mesur arfaethedig | Pwy ddylai ei roi ar waith | Cod(au) Perthnasol |
|---|---|---|
| **Ffrydio byw** | | |
| ICU D17: Dylai fod gan y darparwr fecanwaith sy'n galluogi defnyddwyr i roi gwybod bod cynnwys yn ymddangos ar ffrwd fyw sy'n dangos bod niwed corfforol ar fin digwydd o bosibl. | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cynnig ffrydio byw un-i-nifer gyda risg ganolig neu uchel o gynnwys sy'n ymwneud â therfysgaeth, hudo i berthynas amhriodol, deunydd cam-drin plant yn rhywiol ar ffurf delweddau, cynorthwyo neu annog hunanladdiad, casineb, neu droseddau aflonyddu, stelcio, bygwth a cham-drin. | Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| ICU C16: Dylai'r darparwr, fel rhan o'i swyddogaeth cymedroli cynnwys (gweler ICU C1), sicrhau bod safonwyr dynol ar gael pryd bynnag y gall defnyddwyr ddefnyddio'r gwasanaeth i ffrydio'n fyw | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cynnig ffrydio byw un-i-nifer gyda risg ganolig neu uchel o gynnwys sy'n ymwneud â therfysgaeth, hudo i berthynas amhriodol, deunydd cam-drin plant yn rhywiol ar ffurf delweddau, cynorthwyo neu annog hunanladdiad, casineb, neu droseddau aflonyddu, stelcio, bygwth a cham-drin. | Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |

| Mesur arfaethedig | Pwy ddylai ei roi ar waith | Cod(au) Perthnasol |
|---|---|---|
| ICU F3: Dylai darparwyr sicrhau nad yw defnyddwyr yn gallu gwneud y canlynol mewn perthynas â ffrwd fyw un-i-nifer gan blentyn yn y DU:<br>a) Gwneud sylwadau ar gynnwys y ffrwd fyw;<br>b) Rhoi rhodd i'r defnyddiwr sy'n darlledu'r ffrwd fyw;<br>c) Ymateb i'r ffrwd fyw;<br>d) Defnyddio'r gwasanaeth i recordio neu wneud ciplun o'r ffrwd fyw;<br>e) Pan fydd yn dechnegol bosibl, defnyddio adnoddau eraill y tu hwnt i'r gwasanaeth i recordio neu wneud ciplun o'r ffrwd fyw.<br><br>Dylai darparwyr ddefnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i dargedu'r mesur hwn. | Gwasanaethau sydd: a) yn cynnig ffrydio byw un-i-nifer, a b) y mae'n bosibl i blant ddefnyddio'r gwasanaeth, neu ran ohono. | Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| **Technoleg ragweithiol** | | |

| Mesur arfaethedig | Pwy ddylai ei roi ar waith | Cod(au) Perthnasol |
|---|---|---|
| ICU C11: Dylai darparwyr asesu a oes technoleg ragweithiol ar gael i ganfod neu i helpu i ganfod cynnwys anghyfreithlon a dargedir, a yw'n dechnegol bosibl ei defnyddio ar eu gwasanaeth, ac a yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer technoleg ragweithiol. Os felly, dylent ei defnyddio. | Darparwyr gwasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant ac sydd:<br>• yn wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr sy'n cynnwys risg ganolig neu uchel o un niwed perthnasol o leiaf<br>• yn wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr gyda mwy na 700,000 o ddefnyddwyr misol yn y DU sy'n cynnwys risg uchel o un niwed perthnasol o leiaf<br>• yn wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n wasanaethau storio ffeiliau a rhannu ffeiliau sy'n nodi bod risg uchel o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol ar ffurf delweddau, ni waeth beth fo maint y gwasanaeth<br>Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n nodi risg uchel o hudo i berthynas amhriodol | Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| PCU C9: Dylai darparwyr asesu a oes technoleg ragweithiol ar gael i ganfod neu i helpu i ganfod cynnwys targed sy'n niweidiol i blant, a yw'n dechnegol bosibl ei defnyddio ar eu gwasanaeth, ac a yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer technoleg ragweithiol. Os felly, dylent ei defnyddio. | Darparwyr gwasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant ac sydd:<br>• yn wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr sy'n cynnwys risg ganolig neu uchel o un niwed perthnasol o leiaf<br>• yn wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr gyda mwy na 700,000 o ddefnyddwyr misol yn y DU sy'n cynnwys risg uchel o un niwed perthnasol o leiaf | Cod Amddiffyn Plant ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |

| Mesur arfaethedig | Pwy ddylai ei roi ar waith | Cod(au) Perthnasol |
|---|---|---|
| ICU C12: Dylai darparwyr ddefnyddio'r meini prawf ar gyfer technoleg ragweithiol i asesu'r dechnoleg ragweithiol bresennol maen nhw'n ei defnyddio i ganfod, neu i helpu i ganfod, cynnwys anghyfreithlon a dargedir ac, os oes angen, cymryd camau i sicrhau bod y meini prawf yn cael eu bodloni. | • Gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr sy'n cynnwys risg ganolig neu uchel o un niwed perthnasol o leiaf<br>• Gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr gyda mwy na 700,000 o ddefnyddwyr misol yn y DU sy'n cynnwys risg uchel o un niwed perthnasol o leiaf<br>• Gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n wasanaethau storio ffeiliau a rhannu ffeiliau sy'n nodi bod risg uchel o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol ar ffurf delweddau, ni waeth beth fo maint y gwasanaeth<br>Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n nodi risg uchel o hudo i berthynas amhriodol | Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| PCU C10: Dylai darparwyr ddefnyddio'r meini prawf ar gyfer technoleg ragweithiol i asesu'r dechnoleg ragweithiol bresennol maen nhw'n ei defnyddio i ganfod, neu i helpu i ganfod, cynnwys targed sy'n niweidiol i blant ac, os oes angen, cymryd camau i sicrhau bod y meini prawf yn cael eu bodloni. | Darparwyr gwasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant ac sydd:<br>• yn wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr sy'n cynnwys risg ganolig neu uchel o un niwed perthnasol o leiaf<br>• yn wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr gyda mwy na 700,000 o ddefnyddwyr misol yn y DU sy'n cynnwys risg uchel o un niwed perthnasol o leiaf | Cod Amddiffyn Plant ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| **Cyfateb hashnodau ar gyfer camddefnydd o ddelweddau personol (IIA)** | | |

| Mesur arfaethedig | Pwy ddylai ei roi ar waith | Cod(au) Perthnasol |
|---|---|---|
| ICU C14: Bod darparwyr yn defnyddio system cyfateb hashnodau yn ganfyddiadol i ganfod cynnwys ar ffurf delweddau sy'n gamddefnydd o ddelweddau personol er mwyn gallu dileu'r cynnwys hwnnw. | • Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cynnwys risg uchel o gamddefnydd o ddelweddau personol ac sy'n:<br>  ◦ wasanaethau sydd, fel eu prif ddiben, yn lletya neu'n lledaenu cynnwys pornograffig sy'n cael ei reoleiddio;[1] neu'n<br>  ◦ wasanaethau rhannu ffeiliau a storio ffeiliau; neu'n<br>  ◦ wasanaethau sydd â mwy na 700,000 o ddefnyddwyr gweithredol misol yn y DU.<br>• Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr[2] sy'n cynnwys risg ganolig o gamddefnydd o ddelweddau personol. | Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| ICS C8: Bod darparwyr yn defnyddio system cyfateb hashnodau yn ganfyddiadol i ganfod cynnwys ar ffurf delweddau sy'n gamddefnydd o ddelweddau personol er mwyn gallu cymedroli'r cynnwys hwnnw. | Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr. | Codau Chwilio am Gynnwys Anghyfreithlon |
| **Cyfateb hashnodau terfysgaeth** | | |

[1] Nid yw cynnwys ar ffurf testun yn unig, neu destun gydag un neu fwy o'r canlynol, yn dod o dan y diffiniad o gynnwys pornograffig sy'n cael ei reoleiddio: cynnwys adnabyddadwy sy'n cynnwys testun yn unig, cynnwys adnabyddadwy nad yw'n bornograffig, GIF nad yw'n bornograffig, neu emoji neu symbol arall.

[2] Mae 'mawr' yn cyfeirio at unrhyw wasanaeth chwilio neu wasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd â mwy na 7,000,000 o ddefnyddwyr misol yn y DU.

| Mesur arfaethedig | Pwy ddylai ei roi ar waith | Cod(au) Perthnasol |
|---|---|---|
| ICU C13: Bod darparwyr yn defnyddio system cyfateb hashnodau yn ganfyddiadol i ganfod cynnwys sy'n ymwneud â therfysgaeth er mwyn gallu dileu'r cynnwys hwnnw. | Darparwyr y gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr canlynol sy'n ei gwneud yn bosibl i gynhyrchu, llwytho i fyny neu rannu cynnwys ar ffurf ffotograffau, fideos neu ddelweddau gweledol (p'un a yw wedi'i gyfuno â deunydd ysgrifenedig ai peidio) sy'n cael ei reoleiddio ac wedi cael ei greu gan ddefnyddiwr:<br>• Gwasanaethau mawr lle mae risg ganolig neu uchel o gynnwys sy'n ymwneud â therfysgaeth.<br>• Gwasanaethau eraill lle mae risg uchel o gynnwys sy'n ymwneud â therfysgaeth ac:<br>o Sydd â mwy na 700,000 o ddefnyddwyr gweithredol misol yn y DU; neu sy'n<br>o Wasanaethau rhannu ffeiliau a storio ffeiliau | Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| **Cyfateb Hashnodau Deunydd Cam-drin Plant yn Rhywiol** | | |
| ICU C9: Dylai darparwyr sicrhau bod technoleg cyfateb hashnodau yn cael ei defnyddio i ganfod ac i ddileu deunydd cam-drin plant yn rhywiol (CSAM). | Ymestyn y mesur i gynnwys darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cynnwys risg uchel o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol ar ffurf delweddau, lle mai prif ddiben y gwasanaeth yw cynnal neu ledaenu cynnwys pornograffig sy'n cael ei reoleiddio. | Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| **Systemau argymell** | | |

| Mesur arfaethedig | Pwy ddylai ei roi ar waith | Cod(au) Perthnasol |
|---|---|---|
| ICU E2: Dylai darparwyr ddylunio a gweithredu eu systemau argymell i sicrhau bod cynnwys a nodwyd y gallai fod yn fath penodol o gynnwys anghyfreithlon blaenoriaethol yn cael ei eithrio o ffrydiau argymell i ddefnyddwyr. | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd â system argymell cynnwys ac sy'n cynnwys risg ganolig neu uchel o un o leiaf o'r mathau canlynol o niwed anghyfreithlon: casineb, terfysgaeth, hunanladdiad, neu droseddau ymyrraeth dramor. | Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| **Sancsiynau i ddefnyddwyr** | | |
| ICU H2: Dylai darparwyr baratoi a chyflwyno polisi sancsiynau mewn perthynas â defnyddwyr yn y DU sy'n cynhyrchu, yn llwytho i fyny neu'n rhannu cynnwys anghyfreithlon a/neu brocsi cynnwys anghyfreithlon, gyda'r nod o atal cynnwys anghyfreithlon rhag cael ei ledaenu yn y dyfodol. | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| PCU H2: Dylai darparwyr baratoi a chyflwyno polisi sancsiynau mewn perthynas â defnyddwyr yn y DU sy'n cynhyrchu, yn llwytho i fyny neu'n rhannu cynnwys sy'n niweidiol i blant a/neu brocsi cynnwys niweidiol, gyda'r nod o atal cynnwys niweidiol rhag cael ei ledaenu yn y dyfodol.<br><br>PCU H2: Dylai darparwyr baratoi a chyflwyno polisi sancsiynau mewn perthynas â defnyddwyr yn y DU sy'n cynhyrchu, yn llwytho i fyny neu'n rhannu cynnwys sy'n niweidiol i blant a/neu brocsi cynnwys niweidiol, gyda'r nod o atal cynnwys niweidiol rhag cael ei ledaenu yn y dyfodol. | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, sy'n debygol o gael ei ddefnyddio gan blant, sy'n gwahardd un neu fwy o fathau o gynnwys prif flaenoriaeth, cynnwys blaenoriaeth a/neu gynnwys heb ei ddynodi | Cod Amddiffyn Plant ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |

| Mesur arfaethedig | Pwy ddylai ei roi ar waith | Cod(au) Perthnasol |
|---|---|---|
| ICU C4: Dylai darparwyr osod a chofnodi targedau perfformiad ar gyfer eu swyddogaeth cymedroli cynnwys, sy'n cynnwys y cyfnod ar gyfer cymryd camau cymedroli cynnwys perthnasol. | Gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr a/neu aml-risg, lle nad yw'n bosibl yn dechnegol i dynnu'r cynnwys oddi yno. | Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| PCU C4: Dylai darparwyr osod a chofnodi targedau perfformiad ar gyfer eu swyddogaeth cymedroli cynnwys, sy'n cynnwys y cyfnod ar gyfer cymryd camau cymedroli cynnwys perthnasol. | Gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr a/neu aml-risg, sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant, lle nad yw'n bosibl yn dechnegol i gymryd camau ar gyfer lefel mynediad a/neu gynnwys. | Cod Amddiffyn Plant ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| **Gwahardd defnyddwyr deunydd esgeuluso a cham-drin plant yn rhywiol** | | |
| ICU H3: Dylai darparwyr wahardd defnyddwyr sy'n rhannu, yn cynhyrchu neu'n llwytho i fyny ddeunyddiau esgeuluso a cham-drin plant yn rhywiol, a chymryd camau i'w hatal rhag dychwelyd i'r gwasanaeth yn ystod y gwaharddiad | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| **Dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn** | | |
| ICU B1: Mesur sy'n diffinio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn at ddibenion y Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr, ac sy'n nodi'r egwyddorion y dylai darparwyr eu hystyried wrth roi proses sicrhau oedran ar waith. | Gwasanaethau sy'n defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i benderfynu pwy sy'n blant ymysg eu defnyddwyr yn y DU, er mwyn i fesurau a argymhellir yn y Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr dargedu defnyddwyr o'r fath. | Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |

| Mesur arfaethedig | Pwy ddylai ei roi ar waith | Cod(au) Perthnasol |
| --- | --- | --- |
| ICU D15: Dylai darparwyr ganiatáu apeliadau yn erbyn penderfyniadau ynghylch dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn, a chymryd camau priodol os bydd yr apêl yn cael ei chadarnhau. | Gwasanaethau sy'n defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i benderfynu pwy sy'n blant ymysg eu defnyddwyr yn y DU, er mwyn i fesurau a argymhellir yn y Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr dargedu defnyddwyr o'r fath, ac sydd naill ai'n wasanaethau mawr neu'n rhai aml-risg. | Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| ICU D16: Dylai darparwyr ganiatáu apeliadau yn erbyn penderfyniadau ynghylch dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn, a chymryd camau priodol os bydd yr apêl yn cael ei chadarnhau. | Gwasanaethau sy'n defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i benderfynu pwy sy'n blant ymysg eu defnyddwyr yn y DU, er mwyn i fesurau a argymhellir yn y Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr dargedu defnyddwyr o'r fath, ac nad ydynt yn wasanaethau mawr nac yn rhai aml-risg. | Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| PCU B1: Diwygiadau i godeiddio'r diffiniad o ddulliau sicrhau oedran effeithiol iawn yn y Cod Amddiffyn Plant ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr | Gwasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant ac sy'n defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i sicrhau bod mesurau yn y Cod Amddiffyn Plant ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr yn targedu defnyddwyr sy'n blant. | Cod Amddiffyn Plant ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| **Cynyddu effeithiolrwydd gosodiadau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr, swyddogaethau a chymorth i ddefnyddwyr** | | |

| Mesur arfaethedig | Pwy ddylai ei roi ar waith | Cod(au) Perthnasol |
|---|---|---|
| ICU F1 ac F2: Rydym yn argymell diwygiadau i ICU F1 (‘rhagosodiadau diogelwch ar gyfer defnyddwyr sy’n blant’) ac F2 (‘cymorth ar gyfer defnydd plant’). Byddai’r newidiadau arfaethedig hyn yn golygu y dylai gwasanaethau sydd o fewn cwmpas ICU F1 ac F2 roi’r mesurau hyn ar waith gan ddefnyddio un o’r dulliau canlynol:<br>• Defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn, fel y nodir yng Nghanllawiau Rhan 3 y Dulliau Sicrhau Oedran Effeithiol Iawn; neu<br>• Rhoi ICU F1 ac F2 ar waith ar gyfer holl ddefnyddwyr y gwasanaeth. | • Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr lle mae risg uchel o hudo i berthynas amhriodol<br>• Gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr lle mae risg ganolig o leiaf o hudo i berthynas amhriodol, ac sy’n wasanaethau mawr (7 miliwn neu fwy o ddefnyddwyr misol yn y DU) | Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| **Ymateb i argyfwng** | | |
| ICU C15 / PCU C11:[3] Dylai’r darparwr baratoi a defnyddio protocol mewnol ar gyfer ymateb i argyfwng. Dylai hefyd gynnal a chofnodi dadansoddiad ar ôl yr argyfwng.<br><br>Dylai darparwyr gwasanaethau mawr roi sianel gyfathrebu benodol ar waith er mwyn i asiantaethau gorfodi’r gyfraith allu cysylltu â nhw ynghylch materion sy’n ymwneud ag argyfwng yn ystod argyfwng. | • Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr sy’n cynnwys risg ganolig o niwed perthnasol<br>• Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy’n cynnwys risg uchel o niwed perthnasol | Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr<br><br>Cod Amddiffyn Plant ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| **Apelio** | | |

[3] Dim ond i wasanaethau sy’n debygol o gael eu defnyddio gan blant y bydd mesur arfaethedig PCU C11 yn berthnasol.

| Mesur arfaethedig | Pwy ddylai ei roi ar waith | Cod(au) Perthnasol |
|---|---|---|
| Gwahanol fesurau ICU D ('Riportio a chwynion'): Ehangu cwmpas mesurau apelio i sicrhau eu bod yn cynnwys penderfyniadau a wnaed ar y sail bod cynnwys yn ‘brocsi cynnwys anghyfreithlon’ | Amrywiol (fel y nodir yn y mesurau diwygiedig) | Codau Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr |
| Gwahanol fesurau PCU D ('Riportio a chwynion'): Ehangu cwmpas mesurau apelio i sicrhau eu bod yn cynnwys penderfyniadau a wnaed ar y sail bod cynnwys yn ‘brocsi cynnwys sy’n niweidiol i blant’ | **Amrywiol (fel y nodir yn y mesurau diwygiedig)** | **Cod Amddiffyn Plant ar gyfer gwasanaethau Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr** |